# RHYBUDD o Benderfyniadau'r Pwyllgor Gwaith yn y cyfarfod a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgor 1 ac yn rhithwir ar ZOOM ddydd Mawrth, 18 Gorffennaf, 2023

Cyhoeddir y rhybudd hwn am 5:00pm ddydd Gwener, 21 Gorffennaf 2023. Rhaid cyflwyno unrhyw geisiadau i alw i mewn unrhyw benderfyniad i'r Prif Weithredwr erbyn dim hwyrach na 5:00pm ddydd Gwener, 28 Gorffennaf, 2023. Daw'r penderfyniadau i rym (os na fydd cais dilys i'w galw i mewn) ddydd Llun, 31 Gorffennaf 2023.

**Presennol**: Cynghorwyr Llinos Medi (yn y Gadair ar gyfer eitemau 1- 4, 14 ac 15 ar yr agenda), Dafydd Rhys Thomas, Carwyn Jones, Robin Williams (Dirprwy Arweinydd ac yn y Gadair ar gyfer eitemau 5-13, 16 ac 17 ar yr agenda), Gary Pritchard, Alun Roberts, Nicola Roberts a Neville Evans

**Hefyd yn bresennol**: Cynghorwyr Douglas Fowlie, Glyn Haynes, Trefor Lloyd Hughes, MBE, R. Llewelyn Jones, Derek Owen, Ken Taylor, Dylan Rees.

**Ymddiheuriadau**: Mr Arwel Owen (Pennaeth Gwasanaethau Oedolion)

(10:00 a.m. i 12:35 p.m.)

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **3 Cofnodion**<br>Amherthnasol |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cadarnhau fod cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 27 Mehefin 2023 yn gywir.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Amherthnasol** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Amherthnasol** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Amherthnasol** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Amherthnasol** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Amherthnasol** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **4 Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Democratiaeth |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cadarnhau Blaen Rhaglen** |

| | |
|---|---|
| | **Waith y Pwyllgor Gwaith wedi ei diweddaru am y cyfnod Medi 2023 – Ebrill 2024 gyda'r newidiadau a nodwyd yn y cyfarfod.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Cryfhau atebolrwydd a threfniadau cynllunio ymlaen llaw** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellir yn yr adroddiad ysgrifenedig** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **5 Cyfrifon Terfynol Drafft 2022/23 a Defnyddio Cronfeydd Wrth Gefn a Balansau**<br>Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd –**<br><br>**Nodi'r prif ddatganiadau ariannol drafft (heb eu harchwilio) ar gyfer 2022/23. Cyhoeddir y Datganiad Cyfrifon llawn drafft ar gyfer 2022/23 yn [https://www.ynysmon.llyw.cymru/cy/Cyngor/Cyllideb-y-Cyngor/Datganiad-or-cyfrifon.aspx](https://www.ynysmon.llyw.cymru/cy/Cyngor/Cyllideb-y-Cyngor/Datganiad-or-cyfrifon.aspx)**<br>• **Nodi'r sefyllfa o ran y balansau cyffredinol, sef £13.967m, a chymeradwyo creu'r cronfeydd wrth gefn clustnodedig newydd a nodir yn Nhabl 3, a ddaw i gyfanswm o £4.320m.**<br>• **Cymeradwyo'r balans o £19.638m fel cyfanswm y cronfeydd wrth gefn clustnodedig ar gyfer 2022/23 (£23.18m yn 2021/22). Mae hyn £3.544m yn is na 2021/22, ac mae'n cynnwys £4.320m o gronfeydd wrth gefn newydd, fel yr argymhellir uchod, a gostyngiad cyffredinol o £7.471m yn y cronfeydd wrth gefn presennol, er bod hyn yn cynnwys symiau sydd wedi cynyddu a gostwng yn y cronfeydd wrth gefn presennol.** |

| | |
|---|---|
| | • **Nodi'r sefyllfa o ran balansau ysgolion, sef £6.716m.**<br>• **Nodi balans y CRT o £12.107m.**<br>• **Cymeradwyo'r Gronfa Wrth Gefn Grantiau Cyfalaf Heb eu Cymhwyso newydd gyda balans o £0.407m fel y nodir yn y Datganiad Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn yn Atodiad 4.**<br>• **Cymeradwyo trosglwyddo £1.365m o'r cronfeydd wrth gefn gwasanaethau yn ôl i'r gronfa wrth gefn gyffredinol er mwyn cynyddu hyblygrwydd a gwydnwch ariannol y Cyngor.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Pennu lefel y cronfeydd wrth gefn a balansau a'r defnydd fydd yn cael eu gwneud ohonynt** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellir yn yr adroddiad ysgrifenedig** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **6 Polisi a Strategaeth Rheoli Risg**<br>Adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd derbyn a chymeradwyo'r Polisi a Strategaeth Rheoli Risg.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Cymeradwyo Polisi a Strategaeth Rheoli Risg** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellir yn yr adroddiad ysgrifenedig** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **7 Ymestyn Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** |

| | |
|---|---|
| | Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd argymell i'r Cyngor Llawn bod cylch gorchwyl y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn cael ei ymestyn i gynnwys y cynnig a nodwyd yn yr adroddiad, a bod Cyfansoddiad y Cyngor yn cael ei ddiwygio o ganlyniad i'r newid.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Gwneud argymhelliad i'r Cyngor Llawn ar gynnig i ymestyn cylch gorchwyl y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellir yn yr adroddiad ysgrifenedig** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Amherthnasol. Y Cyngor llawn sy'n gyfrifol am ddiwygio Cyfansoddiad y Cyngor** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **8 Mabwysiadu Cynllun Deisebau Drafft**<br>Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd argymell bod y Cyngor Llawn yn mabwysiadu'r Cynllun Deisebau drafft yn Atodiad 1.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Gwneud argymhelliad i'r Cyngor Llawn ynghylch mabwysiadu'r Cynllun Deisebau drafft** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellir yn yr adroddiad ysgrifenedig** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Amherthnasol. Y Cyngor llawn sy'n gyfrifol am ddiwygio Cyfansoddiad y Cyngor** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **9 Strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu'r Gymraeg**<br>Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cymeradwyo a mabwysiadu'r Strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu'r Gymraeg.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Cymeradwyo a mabwysiadu strategaeth ar gyfer moderneiddio cymunedau dysgu a datblygu'r Gymraeg** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Diddordeb personol yn unig gan y Cynghorydd Carwyn Jones** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellir yn yr adroddiad ysgrifenedig** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **10 Moderneiddio Ysgolion Môn – Adolygu Dalgylchoedd Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn**<br>Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau, a Phobl Ifanc |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cymeradwyo Opsiwn 2 sef cyfuno dalgylch presennol Ysgol Talwrn gyda dalgylch Ysgol y Graig.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Adolygu dalgylch ardal Ysgol Talwrn a dod i benderfyniad yn ei gylch** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellir yn yr adroddiad ysgrifenedig** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **11 Darpariaeth Cinio am Ddim - Ysgol Bodffordd**<br>Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Addysg, |

| | |
|---|---|
| | Sgiliau, a Phobl Ifanc |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cymeradwyo'r cynllun i adleoli caban sydd ar safle'r hen Ysgol Corn Hir i Ysgol Bodffordd, yn amodol ar gael caniatâd cynllunio, er mwyn sicrhau bod Ysgol Bodffordd yn gallu darparu cinio am ddim yn unol â chynllun Llywodraeth Cymru i ddarparu prydau ysgol am ddim i bob plentyn mewn ysgolion cynradd.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Hwyluso darparu cinio am ddim yn Ysgol Bodffordd yn unol â chynllun Llywodraeth Cymru i ddarparu prydau ysgol am ddim i bob plentyn mewn ysgolion cynradd** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellir yn yr adroddiad ysgrifenedig** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **12 Cynllun Rheoli Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) – Drafft Terfynol**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd argymell y Cynllun Rheoli Ardal o Harddwch Naturiol (2023-2028) newydd i'w gymeradwyo gan y Cyngor Llawn.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Gwneud argymhelliad i'r Cyngor Llawn ynglŷn â chymeradwyo'r Cynllun Rheoli AHNE newydd** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellir yn yr adroddiad ysgrifenedig** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Amherthnasol. Y Cyngor Llawn fydd yn cymeradwyo'r Cynllun Rheoli AHNE** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **13 Cynllun Rheoli Cyrchfan 2023-2028**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cymeradwyo'r Cynllun Rheoli Cyrchfan newydd (2023-2028).** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Nodi uchelgeisiau'r Cyngor o ran rheoli cyrchfan am y cyfnod 2023 i 2028.** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellir yn yr adroddiad ysgrifenedig** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **14 Gwella Dibynadwyedd a Chydnerthedd ar draws y Fenai**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd –**<br><br>• **Cymeradwyo'r adroddiad a'i gasgliad na ddylai Llywodraeth Cymru ystyried mai prosiect ffordd syml yw Croesfan y Fenai, ynghyd â mabwysiadu safbwynt cadarnhaol o ran polisi sy'n cydnabod yr angen hanfodol i wella dibynadwyedd a chydnerthedd croesfannau'r Fenai.**<br>• **Dirprwyo awdurdod i'r Prif Weithredwr neu yn ei absenoldeb y Dirprwy Brif Weithredwr, i gyflwyno sylfaen dystiolaeth y Cyngor i Gomisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru cyn y dyddiad cau ar Orffennaf 28ain 2023.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Rhoi cefnogaeth a chymeradwyaeth ffurfiol i'r adroddiad a'i gasgliadau.** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellir yn yr adroddiad** |

| | |
|---|---|
| | **ysgrifenedig** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **15 Porthladd Rhydd Ynys Môn – Diweddariad**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd –**<br>• **Nodi llwyddiant bid Porthladd Rhydd Ynys Môn wrth gyflawni statws Porthladd Rhydd.**<br>• **Dirprwyo awdurdod i'r Prif Weithredwr neu yn ei absenoldeb y Dirprwy Brif Weithredwr (mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd a'r Aelod perthnasol o'r Pwyllgor Gwaith) i gytuno ar unrhyw newidiadau angenrheidiol i'r Cytundeb Cydweithio Cychwynnol arfaethedig.**<br>• **Bod Prif Weithredwr Cyngor Sir Ynys Môn yn cael ei ddynodi fel cynrychiolydd ar Gorff Llywodraethu'r Porthladd Rhydd a bod awdurdod yn cael ei ddirprwyo iddo wneud unrhyw benderfyniadau angenrheidiol ynghylch amcanion Porthladd Rhydd Ynys Môn a bod awdurdod yn cael ei ddirprwyo iddo enwebu person arall i fynychu yn ei le, a bydd gan y person enwebedig hawl hefyd i wneud unrhyw benderfyniadau angenrheidiol.**<br>• **Cymeradwyo gwneud unrhyw gytundeb grant rhwng y Cyngor a Llywodraeth Cymru / Llywodraeth y DU i dderbyn arian cyhoeddus gan y Llywodraeth (hyd at £300,00 ar gyfer yr Achos Busnes Amlinellol).** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Symud Rhaglen Porthladd Rhydd Ynys Môn ymlaen i'r cam achos busnes** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellir yn yr adroddiad ysgrifenedig** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| | |

## EITEM GYFRINACHOL

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **17 Porthladd Rhydd Ynys Môn – Llywodraethiant, sefydlu a rhaglen waith**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cymeradwyo ymrwymo i'r Cytundeb Cydweithio Cychwynnol rhwng CSYM a Stena Line yn Atodiad 1 yn yr adroddiad.[1]** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Symud Rhaglen Porthladd Rhydd Ynys Môn ymlaen i'r cam achos busnes** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellir yn yr adroddiad ysgrifenedig** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

- [1] **Cymeradwywyd dirprwyo awdurdod i'r Prif Weithredwr neu yn ei absenoldeb y Dirprwy Brif Weithredwr (mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd a'r Aelod perthnasol o'r Pwyllgor Gwaith) i gytuno ar unrhyw newidiadau angenrheidiol i'r Cytundeb Cydweithio Cychwynnol arfaethedig o dan eitem 15**